

**2017 Rhif 1327 (Cy. 300)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r  
A40 (Abergwaun, Sir Benfro)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2017**

*Gwnaed* 22 Rhagfyr 2017

*Yn dod i rym* 31 Rhagfyr 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) a Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd bod gŵyl stryd Nos Galan yn cael ei chynnal ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Rhagfyr 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwm:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

- (i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu;
- (ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

---

(1) 1984 p.27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

- (iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu mewn darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;
- (iv) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad ac am resymau diogelwch;

ystyr "y cefnffyrdd" (*"the trunk roads"*) yw Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) a Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) yn Abergwaun yn Sir Benfro;

ystyr "cyfnod y digwyddiad" (*"event period"*) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 31 Rhagfyr 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

### **Cymhwyso**

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 2 ddiwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

22 Rhagfyr 2017

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

## **YR ATODLEN**

Y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw Main Street sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â Hamilton Street.

Y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â'r Slade.

Y darn o gefnffordd yr A40 o'r enw y Stryd Fawr sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â'r fynedfa i Archfarchnad y Cop.

Y darn cyfan o gerbyffordd gylchredol yr A40 Cylchfan Sgwâr Abergwaun.